

Gweithwyr Ymyriadau Teuluol

Yr hyn yr ydyn ni'n ei gredu

Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn credu mai teuluoedd sydd yn y sefyllfa orau i gydnabod beth sy'n gweithio'n dda a'r pethau y maen nhw am eu newid wrth ddefnyddio'u cryfderau a gwneud newidiadau ystyrlon. Mae ein tîm yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd i gefnogi newidiadau y maen nhw eu hunain yn eu nodi, a fydd yn eu helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel.

Ein gweithwyr Ymyriadau Teuluol

Mae gan ein staff flynyddoedd lawer o brofiad yn cefnogi plant a theuluoedd. Mae staff wedi'u hyfforddi yn y canlynol: Cyfweliadau Ysgogol, Dulliau Seiliedig ar Gryfder, Gwaith Ymlyniad, a Dulliau Magu Plant y Cylch Diogelwch. Mae Gweithwyr Ymyriadau Teuluol wedi'u lleoli yn ein timau craidd Cynllunio ac Ailuno Tymor Hir ac Amddiffyn Plant a'r Llys. Maent yn gweithio ochr yn ochr â Gweithwyr Cymdeithasol, Gweithwyr Cymorth Cymunedol ac yn cael eu rheoli gan Reolwr/Rheolwyr Tîm.

Y teuluoedd rydyn ni'n gweithio gyda nhw

Rydym yn cefnogi teuluoedd a phlant sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n cydnabod yr angen i newid.

Mae teuluoedd yn cytuno i weithio gyda ni a rhaid iddynt fod yn barod i gael cymorth dwys. Bydd y teulu a'r gweithiwr sy'n eu cyfeirio yn cytuno ar nodau ac amserlenni i gyflawni'r newid.

Y Broses

Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol yn esbonio rôl y GYT ac, os yw'r teulu'n cytuno, yn trefnu

ymweliad ar y cyd â'r gweithiwr. Yn ystod yr ymweliad hwn, bydd pryderon a nodau yn cael eu trafod, a hynny o safbwynt y teulu a'r Gweithiwr Cymdeithasol, ac yna bydd y Gweithiwr Cymdeithasol a'r gweithiwr Ymyriadau yn gweithio ar y cyd.

Trwy gydol y broses ymyriadau, mae'r achos yn parhau'n agored i'r Gweithiwr Cymdeithasol. Mae Gweithwyr Ymyriadau Teuluol yn rhoi cefnogaeth ddwys i deuluoedd am hyd at 12 wythnos, weithiau'n hirach os oes angen.

Yn ystod y cyfnod dwys, mae Gweithwyr Ymyriadau fel arfer yn ymweld ddwywaith yr wythnos, ac o bosib yn fwy aml os oes angen cymorth ychwanegol. Mae'r fath sesiynau rheolaidd yn rhoi cyfleoedd i edrych yn fanwl ar y pryderon, dod o hyd i werthoedd a chryfderau'r teulu, gosod nodau ystyrlon ac ymarfer sgiliau newydd. Mae amllder yr ymweliadau yn helpu i adeiladu perthynas waith gref, ac yn sicrhau bod modd cefnogi unrhyw newid, mewn ffordd gyson ac effeithiol. Efallai y bydd angen Cynllun Diogelwch hefyd i sicrhau bod pawb yn deall sut y bydd risgiau yn cael eu rheoli.

Mae teuluoedd yn cael cefnogaeth ymarferol ac emosiynol trwy gydol y broses, ac mae'r cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r penderfyniad i gau achos yn cael ei ystyried ochr yn ochr â barn y Gweithiwr Cymdeithasol ym mhob adolygiad. Mae'r rhan fwyaf o achosion yn cau o fewn 12 wythnos.

Sesiynau Atgyfnerthu

Rydym yn cynnig sesiynau atgyfnerthu trwy gydol yr adeg yr ydym yn rhan o'r gwaith. Mae llithro yn rhan naturiol o newid, ac mae sesiynau atgyfnerthu yn caniatáu i deuluoedd

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Gweithwyr Ymyriadau Teuluol

fyfyr, cryfhau eu strategaethau ac adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda.

Cyfrinachedd

Mae gwybodaeth a rennir gyda'r Gweithwyr Ymyriadau Teuluol yn cael ei thrin â pharch. Caiff ei rhannu gyda gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r cymorth yn unig.

Mae terfynau i gyfrinachedd, ac mae'n rhaid i ni rannu gwybodaeth os yw plentyn neu berson agored i niwed mewn perygl o niwed neu os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Lle bo'n bosibl, bydd teuluoedd yn cael gwybod cyn i ni rannu gwybodaeth.

Ein Manylion Cyswllt

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Glantorfaen Road
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

01495 762200

Rhestr Termau

TCD – Tîm Cymorth i Deuluoedd: Gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi teuluoedd i newid.

GYT – Gweithiwr Ymyriadau Teuluol: Gweithio'n uniongyrchol gyda'r teulu.

Cynllun Diogelwch – Cynllun sy'n cael ei greu gyda'r teulu i gadw plant yn ddiogel.

Cwrs COSP – Dulliau Magu Plant y Cylch Diogelwch.

Cynllun Gofal a Chymorth – Cynllun cymorth sy'n cael ei greu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynllun Amddiffyn Plant – Cynllun sy'n cael ei ddefnyddio pan fydd pryderon diogelu yn uwch.

Supportive, fair, effective...

TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN